
**DAVID CLEMENTS ECOLOGY LTD**

# ASESIAD ECOLEGOL YSTÂD

# FASNACHU'R IWERYDD, Y BARRI

**Gorffennaf 2017**

**David Clements Ecology Ltd**
**Carlton House, 5 Herbert Terrace, Penarth, Bro Morgannwg, CF64 2AH Ffôn: 029 20 350120 Ffacs: 029 20 711997**
**info@dce.org.uk**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdur** | Vicky Hannaford BSc (Anrh.) |  | 03.07.2017 |
| **Wedi'i wirio gan** | Aislinn Harris BSc (Anrh.) ACIEEM |  | 03.07.2017 |
| **Fersiwn Rhif/Cam** | F 1.0 | | |

# CRYNODEB

Paratowyd yr adroddiad hwn gan David Clements Ecology Ltd (DCE) ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (CBM) ac mae'n cyfeirio at lain o dir yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri, De Cymru. Dangosir lleoliad y safle a'r cyd-destun yng Nghynllun 1.

Mae'r safle yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd i'r dwyrain o Ddociau'r Barri ac yn ne bwrdeistref sirol Bro Morgannwg, Rhif Grid Cenedlaethol ST13378 67278. Mae Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn cynnwys sawl uned fasnachu/ddiwydiannol eisoes gan gynnwys Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref CBM ac mae'r ardal a arolygwyd yn amgylchynu'r unedau hyn. I'r gogledd ac i'r gorllewin o'r safle mae unedau diwydiannol/masnachu y tu hwnt iddynt mae Afon Tregatwg sy'n llifo i Ddoc y Barri, i'r dwyrain mae unedau diwydiannol/masnachu pellach ac i'r de mae ardal o dir garw yn arwain at yr arfordir. Mae'r safle yn mesur tua 2.7ha a thua 10m AOD. Tra bod y safle yn wastad yn bennaf mae'n ymddangos bod y cyrion wedi'i amgylchynu gan fwnd o tua 1m o uchder.

Mae'r safle ar hyn o bryd yn cynnwys llawer o fieri trwchus a'r bwriad yw clirio'r llystyfiant hwn er mwyn gwneud rhywfaint o waith i archwilio'r safle. Mae'r gwaith archwilio hwn yn gam cyntaf posibl cyn cyflwyno cais cynllunio i ddatblygu'r safle ymhellach. Nid oes unrhyw fanylion ar gael am unrhyw waith datblygu pellach ar y safle ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

Nid yw'r safle yn cynnwys unrhyw safleoedd o ddiddordeb gwarchod natur, megis Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) neu Warchodfa Natur Leol (GNLl). Fodd bynnag, mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Hayes Point i Bendrick Rock tua 60m i'r de o'r safle ac wedi'u dynodi felly oherwydd eu bod o ddiddordeb daearegol.

Nis ystyrir bod cynefinoedd y safle datblygu yn cynnig dim mwy na Gwerth Lleol i fywyd gwyllt, a chan hynny mae datblygu'r rhain o arwyddocâd eithaf dinod ac nid yw unrhyw effaith yn debygol o ymestyn y tu hwnt i'r ardal gyfagos. Dylai unrhyw effaith fod yn agored i fesurau lliniaru.

Bydd datblygu'r safle yn arwain at golli'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd a geir yn y safle, fodd bynnag deellir y caiff darn o dir yng ngogledd y safle ei gadw.

Er gwaethaf yr uchod, ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y casgliad yw bod modd ail-ddatblygu'r safle heb achosi unrhyw effaith andwyol arwyddocaol i fywyd gwyllt, cyn belled y caiff mesurau lliniaru a digolledu digonol eu rhoi ar waith i ddiogelu'r nodweddion gwerthfawr presennol ac er mwyn osgoi neu leihau'r effaith ar rywogaethau a warchodir. Ystyrir felly na fyddai'r cynnig i ddatblygu'r safle hwn yn cael ei gyfyngu'n annerbyniol gan faterion bioamrywiaeth.

Mae argymhellion mewn cysylltiad â mesurau lliniaru a digolledu posibl wedi'u nodi yn yr adroddiad.

# 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn gan David Clements Ecology Ltd (DCE) ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (CBM) ac mae'n cyfeirio at lain o dir yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri, De Cymru. Dangosir lleoliad y safle a'r cyd-destun yng Nghynllun 1.

1.2 Mae'r safle yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd i'r dwyrain o Ddociau'r Barri ac yn ne bwrdeistref sirol Bro Morgannwg, Rhif Grid Cenedlaethol ST13378 67278. Mae Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn cynnwys sawl uned fasnachu/ddiwydiannol eisoes gan gynnwys Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref CBM ac mae'r ardal a arolygwyd yn amgylchynu'r unedau hyn. I'r gogledd ac i'r gorllewin o'r safle mae unedau diwydiannol/masnachu y tu hwnt iddynt mae Afon Tregatwg sy'n llifo i Ddoc y Barri, i'r dwyrain mae unedau diwydiannol/masnachu pellach ac i'r de mae ardal o dir garw yn arwain at yr arfordir. Mae'r safle yn mesur tua 2.7ha a thua 10m AOD. Tra bod y safle yn wastad yn bennaf mae'n ymddangos bod y cyrion wedi'i amgylchynu gan fwnd o tua 1m o uchder.

1.3 Mae'r safle ar hyn o bryd yn cynnwys llawer o fieri trwchus a'r bwriad yw clirio'r llystyfiant hwn er mwyn gwneud rhywfaint o waith i archwilio'r safle. Mae'r gwaith archwilio hwn yn gam cyntaf posibl cyn cyflwyno cais cynllunio i ddatblygu'r safle ymhellach. Nid oes unrhyw fanylion ar gael am unrhyw waith datblygu pellach ar y safle ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

1.4 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg ecolegol ac asesiad o'r safle. Mae hefyd yn asesu effaith debygol unrhyw waith ailddatblygu pellach ac yn gwneud argymhellion mewn cysylltiad â lliniaru unrhyw effaith andwyol ar fioamrywiol a all ddeillio o unrhyw waith felly.

## 1.5 Safleoedd o Ddiddordeb Bioamrywiaeth

### *Safleoedd Statudol*

1.5.1 Nid yw'r safle yn cynnwys unrhyw safleoedd o ddiddordeb gwarchod natur, megis Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) neu Warchodfa Natur Leol (GNLl). Fodd bynnag, mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Hayes Point i Bendrick Rock tua 60m i'r de o'r safle ac wedi'u dynodi felly oherwydd eu bod o ddiddordeb daearegol.

### *Safleoedd Anstatudol*

1.5.2 Nid yw'r safle yn cynnwys neu'n gyfagos i unrhyw safleoedd statudol o ddiddordeb gwarchod natur megis Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN). Mae un SoBCN o fewn 1km i'r safle.

- Mae Afon Tregatwg (338) - tua 360m i'r gogledd-ddwyrain o'r safle.

1.5.3 Mae 'Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur' (SoBNC) yn un o ddosbarth o ddynodiadau gwarchod natur anstatudol a gydnabyddir ledled y DU dan ystod eang o deitlau, y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel 'Safleoedd Bywyd Gwyllt'. Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt a elwir yn safleoedd 'trydydd haen', yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn is eu gwerth na safleoedd sydd o ddiddordeb rhyngwladol neu genedlaethol, ond ystyrir eu bod o werth gwarchod natur gwirioneddol mewn cyd-destun cenedlaethol (h.y. rhanbarthol neu ardal). Fel arfer caiff y rhain eu dynodi ar lefel sirol neu fwrdeistref sirol gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol a'u hystyried yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yn y cynllun datblygu statudol perthnasol. Mae'r fframwaith ar gyfer nodi a dynodi 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' wedi'i nodi mewn amrywiol ddogfennau Llywodraeth, ac mae cyfeiriad ato hefyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (2017, Rhifyn 9) a Nodyn Cyngor Technegol 5: Gwarchod Natur a Chynllunio.

1.5.4 Mae Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth (RIGS) yn safleoedd wedi'u dynodi yn sgil eu pwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer geoamrywiaeth yn y DU. Mae Bendrick Rock ac Ardal Dwyrain Arfordir y Barri, tua 355m i'r de-orllewin a 55m i'r de o'r safle yn y drefn honno, wedi'u dynodi yn Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth.

# 2.0 DULLIAU A METHODOLEG

## 2.1 Methodoleg yr Arolwg

2.1.1 Arolygwyd y safle ar 15 Mehefin 2017, mewn tywydd da, gan ei bod yn sych a gwyntog, ar sail Arolwg Cam 1/Arfarniad Ecolegol Cychwynnol Estynedig yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM 2013). Roedd hwn yn seiliedig ar fethodoleg dosbarthu llystyfiant Cam 1 a ddatblygwyd gan y Cyngor Gwarchod Natur gynt (fersiwn cyfredol: JNCC 2007), sef dull safonol a dderbynnir yn genedlaethol ar gyfer arolygu ac arfarnu cynefinoedd ecolegol yn gyflym sy'n seiliedig yn bennaf ar gofnodi llystyfiant a'i ddosbarthu yn ôl categorïau cynefinol penodol. Cofnodwyd y rhywogaethau planhigion mwyaf amlwg a gweladwy a pharatowyd 'nodiadau targed' ar gyfer unrhyw nodweddion o ddiddordeb penodol.

2.1.2 Mae'r fethodoleg hefyd yn gofyn am gofnodi'r rhywogaethau anifeiliaid amlwg megis adar, ymlusgiaid (e.e. amffibiaid ac ymlusgiaid), mamaliaid ac anifeiliaid di-asgwrn cefn megis gloÿnnod a gwas y neidr, gan roi sylw penodol i bresenoldeb (neu bresenoldeb posibl) unrhyw rywogaethau prin neu rywogaethau a ddiogelir.

## 2.2 Chwilio Data

2.2.1 Yn ogystal â'r arolwg gwreiddiol, aethpwyd ati i chwilio data gyda Chanolfan Gofnodion Biolegol De-ddwyrain Cymru (Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru) er mwyn cael mynediad at unrhyw ddata biolegol presennol a all fod ar gael. Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru yw'r brif gronfa ar gyfer cofnodion bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

# 3.0 CANLYNIAD YR AROLWG

## 3.1 Cynefinoedd a Llystyfiant

3.1.1 Dangosir canlyniadau'r arolwg llystyfiant a chynefinoedd ar Gynllun 2 yr adroddiad hwn, a cheir disgrifiad byr ohonynt isod. Ceir rhestrau o'r rhywogaethau a gofnodir yn Atodiad 1 ac mae ffotograffau enghreifftiol ar gael ar ddiwedd yr adroddiad.

***Rhywogaethau Planhigion Nodedig***

3.1.2 Ni chofnodwyd bod unrhyw rywogaethau prin neu anfynych ar y safle.

***Cynefinoedd Nodedig***

3.1.3 Nis ystyriwyd bod unrhyw gynefinoedd o fewn ffiniau'r safle yn Gynefinoedd sy'n cael Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, (Grŵp Cofnodion a Gwybodaeth Bioamrywiaeth, 2007) neu wedi'u rhestru yn Adran 7 fel 'y cynefinoedd pwysicaf o ran gwarchod amrywiaeth biolegol yng Nghymru' (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, 2016).

***Prysgwydd***

3.1.4 Mae'r rhan fwyaf o'r safle wedi'i orchuddio gan fieri *(Rubus fruticosus ag)*. Mae rhosyn gwyll *(Rosa canina)* yma ac acw yn y mieri. Ceir Coed Helyg (Salix sp.) ac ysgaw ar hyd ffiniau gorllewinol y safle a hefyd rhwng y mieri yn ogystal â sycamorwydd (*Acer pseudoplatanus*), drain gwynion (*Crataegus monogyna*), coed mêl (*Buddleja davidii*) Barf yr Hen Ŵr (*Clematis alba*).

***Llystyfiant Cynefinol***

3.1.5 Ar hyd ffiniau gogledd y safle mae llystyfiant cynefinol yn fwy amlwg yn enwedig ar hyd y bwnd. Ceir yma rywogaethau amrywiol; ymysg y rhai a welir amlaf mae rhywogaethau mwstard *(Brassica sp.)* ysgallen y maes (*Cirsium arvense*), efwr (*Heracleum sphondylium*), mugwort (*Artemisia vulgaris*), Tafod y Llew (*Picris echioides*), Meillionen Hopysaidd (*Trifolium campestre*), Llygad yr Ych (*Leucanthemum vulgare*), Cribau'r Pannwr (*Dipsacus fullonum*), dail tafol (*Rumex crispus*), ffenigl (*Foeniculum vulgare*), Gwlydd y Perthi (*Galium aparine*) a helyglys hardd (*Chamerion angustifolium*). Ceir rhywogaethau eraill weithiau hefyd gan gynnwys y Driaglog goch (*Centranthus ruber*), Eirunllys rhydyllog (*Hypericum perforatum*), Pig yr Aran Larpiog (*Geranium dissectum*) a Phig yr Aran Grynddail (*Geranium rotundifolium*), hocys (*Malva sylvestris*) a Y Ganhri Felen (*Blackstonia perfoliata*), Pysen y Ceirw (*Lotus corniculatus*) a'r Feddyges Las (*Prunella vulgaris*), Blodyn Ymenyn Ymlusgol (*Ranunculus repens*) a Phumnalen (*Potentilla reptans*). Mae'r glaswelltau a geir yno yn rhai sy'n gysylltiedig â lleiniau ymyl ffyrdd a thir diffaith ac yn cynnwys Ceirchwellt Tal *(Arrhenatherum elatius),* Maswellt Penwyn (*Holcus lanatus*) a Throed y Ceiliog (*Dactylis glomerata*).

3.1.6 I'r gogledd-orllewin o'r safle ceir ardal o lystyfiant cynefinol gyda rhywogaethau ychwanegol megis Marchysgallen (*Cirsium vulgare*), y Felengu Wen (*Reseda alba*), clwmp mawr o Ytbysen y Ddôl (*Lathyrus pratensis*), Ffacbysen y Cloddiau (*Vicia*

*sepium*) a Briwlys y Goedwig (*Stachys sylvatica*) gyda Gludlys Gwyn (*Silene latifolia*) a blodau gleision (*Myosotis sp*.) ambell waith.

woundwort (*Stachys sylvatica*) with white campion (*Silene latifolia*) and forget me not (*Myosotis sp*.) present rarely. Nodwyd bod Taglys y Perthi (*Calystegia sepium*) yn tyfu drwy gydol yr ardal hon.

3.1.7 I'r de-orllewin eto ar gyrion y safle, ceir rhywogaethau cynefinol ar y bwnd. Mae'r rhywogaethau a geir yno yn cynnwys y Felengu Wen, Llygad Llo Mawr, Hocys, Cribau'r Pannwr, Y Bengaled (*Centaurea nigra*), Taglys y Perthi, Amrhydlwyd y Mynydd (*Pulicaria dysenterica*),Blodyn Ymenyn Ymlusgol, Pumnalen ymlusgol a Meillionen Wen (*Trifolium repens*).

**Amwynder Glaswelltir**

3.1.8 Ymddengys fel petai'r glaswelltir ar hyd llain ymyl ffordd i'r dwyrain a'r de-ddwyrain yn cael ei dorri'n rheolaidd gan adael porfa gymharol fer. Mae'r glaswelltoedd a gofnodwyd yn cynnwys Gweunwellt Unflwydd ((*Poa annua*), Gweunwellt Garw *Poa trivialis*), Maswellt Penwyn, Ceirchwellt Tal, Troed y Ceiliog. Mae'r perlysiau yn cynnwys llygaid yr haul (*Bellis perennis*), Llyriad yr Ais (*Plantago lanceolata,* Meillionen Wen, Meillionen Goch (*Trifolium pratense*), Pys y Ceirw, Pumnalen Ymlusgog, Maglys Gwineuddu (*Medicago lupulina*), Milddail (*Achillia millefolium*) a Wylys (*Anagallis arvensis*).

***Rhywogaethau Ymledol***

3.1.9 Ceir Llysiau'r Dial (*Fallopia japonica)* hynod ymledol ac estron yn nwyrain y safle, gweled y Nodyn Technegol (NT). Roedd y planhigyn hwn i'w weld ar gyrion y safle ymysg y mieri, ond ni wyddys faint ohono sydd yno oherwydd trwch y llystyfiant y tu hwnt iddo.

## 3.2 Anifeiliaid

***Ystlumod***

3.2.1 Caiff pob rhywogaeth ystlumod a'u safleoedd clwydo eu diogelu dan Gyfarwyddeb yr EU ar Warchod Cynefinoedd a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (92/43/EEC; y Gyfarwyddeb Cynefinoedd' a roddwyd ar waith yn y DU drwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol
) 2010 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd). Mae'r lleoliadau clwydo a ddefnyddir gan ystlumod hefyd yn cael eu diogelu rhag eu haflonyddu neu eu rhwystro heb awdurdod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae nifer o ystlumod wedi'u rhestru yn 'Rhywogaeth â Blaenoriaeth' yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth (BRIG 2007) a PBCy yma yng Nghymru.

3.2.2 Mae'r cofnod ystlumod agosaf yn ymwneud â'r Ystlum Mawr a'r Ystlum Lleiaf yn cymudo/chwilio am fwyd tua 400m i'r gogledd-ddwyrain o'r safle. Nid oes unrhyw gofnodion bod ystlumod o fewn 1km i'r safle (Data Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, 2017).

3.2.3 Nid oes unrhyw adeiladau neu goed yn y safle sy'n addas o ran cynnig cynefin clwydo i ystlumod er ei bod yn bosibl y gallai ystlumod ddefnyddio'r cynefin mieri i chwilio am fwyd.

**D*yfrgwn***

3.2.4 Mae’r dyfrgi yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop sy’n cael lefel o warchodaeth statudol sy’n debyg iawn i’r un ar gyfer ystlumod, uchod. Mae hefyd yn Rhywogaeth â Blaenoriaeth gan CGB DU a PBCy yng Nghymru.

3.2.5 Nid oes unrhyw gofnod o bresenoldeb dyfrgwn o fewn 1km i’r safle, mae’r cofnodion agosaf tua 1.3km i’r gogledd ym Mhyllau Tregarwd (Data Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, 2017).

3.2.6 Ni chofnodwyd unrhyw arwyddion o ddyfrgwn yn ystod yr arolwg presennol, fodd bynnag, mae Afon Tregatwg o fewn 100m i ogledd y safle ac mae’n bosib bod dyfrgwn yn bresennol yno. Er bod gan y mieri’r potensial i guddio dyfrgwn, mae’r llu o weithgareddau ar y safle yn golygu bod eu presenoldeb yn annhebygol.

***Pathewod***

3.2.7 Mae’r pathew yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop sy’n cael lefel o warchodaeth statudol sy’n debyg iawn i’r un ar gyfer ystlumod a dyfrgwn, uchod. Mae hefyd yn Rhywogaeth â Blaenoriaeth gan CGB DU a PBCy yng Nghymru.

3.2.8 Nid oes unrhyw gofnod o bresenoldeb pathewod o fewn 1km i’r safle (Data Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, 2017). Ystyrir nad yw’r safle hwn yn safle da i bathewod. Er bod digon o fieri yn y safle, mae diffyg cysylltedd i’r dirwedd ehangach a diffyg cynefin coetirol yn y safle yn golygu ei bod yn annhebygol bod pathewod yn bresennol.

***Moch Daear***

3.2.9 Mae’r mochyn daer yn cael gwarchodaeth lawn yn y DU dan delerau Deddf Gwarchod Moch Daear 1992. Mae’r warchodaeth yn ymwneud â’r anifail ei hun a’i ddaearau nythu, ac mae’r dehongliad cyfredol o’r Ddeddf hefyd yn cynnig rhywfaint o warchodaeth i’r ardaloedd pennaf a ddefnyddir gan foch daear i chwilio am fwyd. Mae moch daear yn gymharol eang eu gwasgariad a chyffredin drwy gydol y DU ac yn cynyddu o ran niferoedd mewn llawer o ardaloedd, er eu bod yn bryn a than fygythiad mewn ardaloedd eraill. Er nad ydynt yn brin yn genedlaethol, maent yn destun ystyriaeth ar wahân ym mholisi cynllunio cenedlaethol.

3.2.10 Nid oes unrhyw gofnod o bresenoldeb moch daear o fewn 1km i’r safle (data Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru 2017). Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o bresenoldeb moch daear yn ystod yr arolwg presennol, megis ffwr, tail na phyllau snwffian. Nid oedd unrhyw lwybrau mamaliaid amlwg yn weladwy drwy’r llystyfiant. Nid yw topograffi’r safle yn ffafriol ar gyfer cloddio daearau a chan hynny ystyrir ei bod yn annhebygol bod moch daear yn bresennol yn y safle.

***Mamaliaid Eraill***

3.2.11 Mae’n bosibl bod ystod o anifeiliaid eraill yn bresennol ar y safle gan gynnwys llygon, llygod y gwair, llygod, draenogod, llwynogod a thyrchod daear, un ai fel rhywogaethau preswyl neu wrth chwilio am fwyd a/neu deithio trwodd er na chofnodwyd unrhyw enghreifftiau yn ystod yr arolwg presennol.

***Adar***

3.2.12 Mae bron bob rhywogaeth adar yn cael eu gwarchod rhag eu lladd neu anafu fel unigolion dan ddeddfwriaeth y DU ac mae'r warchodaeth hon hefyd yn cynnwys eu nythod, wyau a chywion. Mae nifer o

rywogaethau prin iawn yn destun gwarchodaeth estynedig dan gyfraith y DU yn rhinwedd eu rhestru ar Atodlen 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac ni ellir aflonyddu arnynt tra byddant yn nythu.

3.2.13 Mae nifer o gofnodion o adar yn yr ardal tua 1km o gwmpas y safle, gan gynnwys llawer sy'n adar Atodlen 1 (h.y. a gaiff eu gwarchod yn benodol) neu yn rhywogaethau â blaenoriaeth a warchodir ar CGB DU a/neu Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain yn cynnwys y Fôr-hwyaden Ddu, Telor Cetti, Glas y Dorlan, Gwylan Môr y Canoldir, Coelgylfinir, Coeswerdd (oll yn rhywogaethau Atodlen 1), Llinos, Llwyd y Gwrych, Coch y Berllan, Aderyn y To, Ehedydd, y Fronfraith, y Trochydd Mawr, Cwtiad Torchog, Hwyaden Gynffonfain a'r Trochydd Gyfdd-ddu.

3.2.14 Mae'n annhebygol bod adar yn defnyddio'r prysgwydd yn y safle ar gyfer nythu, mae'n bosib bod y safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer chwilio am fwyd a bwydo gan amrywiaeth o rywogaethau adar cyffredin.

***Ymlusgiaid***

3.2.15 Mae pedair rhywogaeth o ymlusgiaid brodorol yn Ne Cymru, sef y Madfall, Neidr ddefaid, Gwiber a'r Neidr Lwyd. Mae'r pedair yn destun yr hyn a elwir yn 'warchodaeth rannol' dan y fersiwn diwygiedig o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n gwahardd lladd neu anafu unigolion yn fwriadol. Fodd bynnag, nid yw'r warchodaeth yn cynnwys y cynefinoedd sy'n cynnal y rhywogaethau dan sylw yn uniongyrchol. Caiff y pedair rhywogaeth ymlusgiaid cyffredin eu rhestru fel Rhywogaeth â Blaenoriaeth yn CGB DU a'i sefydliad cyfatebol yng Nghymru.

3.2.16 Mae rhywogaethau ymlusgiaid yn anodd eu canfod yn y maes heb ddefnyddio dulliau arolwg Cam 2 targedig. Felly mae'n rhaid dibynnu ar yr asesiad goddrychol o'r cynefinoedd yn y safle o ran eu potensial fel tiroedd gwasgaru, chwilio am fwyd neu aeafu ar gyfer ymlusgiaid cyffredin, yn seiliedig ar brofiad ac ar wybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol.

3.2.17 Ceir dau gofnod ar gyfer y Neidr ddefaid tua 400m i'r gogledd-ddwyrain o'r safle (data Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru 2017) Mae prinder cofnodion yn debygol o fod o ganlyniad i ddiffyg cofnodi yn hytrach na diffyg ymlusgiaid gwirioneddol.

3.2.18 Mae'r safle yn cynnwys prysgwydd trwchus gan mwyaf gyda llystyfiant cynefinol ar hyd y cyrion. Mae ychydig o dystiolaeth o dipio anghyfreithlon a phentyrrau o rwbel ar gyrion gogleddol y safle sydd â'r potensial i gynnig lloches addas i ymlusgiaid. Glaswelltir amwynderol ar hyd rhan o'r ffin ddwyreiniol a de-ddwyreiniol yw'r unig ryngwyneb gweladwy rhwng cynefinoedd. Ystyrir bod y safle yn eithaf unffurf a than gysgod prysglwydd trwchus sy'n cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ymlusgiaid dorheulol Mae ychydig o dipio anghyfreithlon a phentyrrau rwbel yn bresennol ar y safle. Oherwydd y cyfleoedd torheulo cyfyngedig ac amrywiaeth y cynefin ystyrir nad oes gan y safle lawer o botensial i gynnal poblogaeth o rywogaethau ymlusgiaid.

***Amffibiaid***

3.2.19 Mae pum rhywogaeth o amffibiaid cynhenid i'w chael yn Ne Cymru, gan gynnwys Broga Melyn, Llyffant Dafadennog, Madfall Ddwr Gyffredin, Madfall Ddwr Balfog a

Madfall Ddŵr Gribog. Mae'r olaf yn rhywogaeth brin ac sy'n dirywio'n genedlaethol, a chaiff ei gwarchod yn llawn dan ddeddfwriaeth y DU ac Ewrop (gweler o dan ystlumod uchod), sydd hefyd yn cynnwys y cynefinoedd sy'n ei gwarchod.

Ni chynigir unrhyw warchodaeth statudol uniongyrchol i'r pedair rhywogaeth arall, ac eithrio mewn perthynas â masnach.

3.2.20 Nid oes unrhyw gofnodion bod Madfall Ddŵr Gribog o fewn 1km o'r safle. Nid oes unrhyw gofnodion bod unrhyw amffibiaid eraill o fewn 1km i'r safle (Data Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru 2017).

3.2.21 Mae amffibiaid yn dueddol o hoffi cyrff dŵr at ddibenion bridio a chwilio am fwyd. Oherwydd diffyg cynefin dyfrol addas gerllaw ystyrir ei bod yn annhebygol bod amffibiaid yn bresennol o fewn ffiniau'r safle. Mae gan y prysgwydd sy'n bresennol yn y safle ychydig o botensial o ran dibenion gaeau, fodd bynnag, oherwydd y tirwedd caled o amgylch y plot, mae'n annhebygol bod amffibiaid yn bresennol.

3.2.22 Ystyrir bod presenoldeb Madfall Ddŵr Gribog yn y safle yn annhebygol oherwydd diffyg y cofnodion am yr ardal gerllaw, pellter y safle o'r pwll agosaf (600m i ffwrdd) a nifer y rhwystra ffisegol rhwng y pwll a'r safle ar ffurf ffyrdd a chyrsiau dŵr a fyddai'n gwahardd symudiad.

Anifeiliaid di-asgwrn cefn

3.2.23 Mae mwy na 30,000 o rywogaethau o anifeiliaid di-asgwrn cefn wedi'u cofnodi ym Mhrydain, ym mhob math o gynefin sydd ar gael. Cynigir gwarchodaeth statudol lawn i tua 40 o rywogaethau yn y DU un ai dan ddeddfwriaeth Ewrop neu Brydeinig.

3.2.24 Nid oes cofnodion ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn cefn o'r safle. Mae cofnodion ar gael ar gyfer y gardwenynen lwydfrown a Gweirlöyn Llwyd tua 200m i'r de o'r safle ar hyd Bendrick Rock a 550m i'r de-ddwyrain o'r safle ar gyfer y gardwenynen lwydfrown a gwibiwr llwyd (Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru 2017).

3.2.25 Yn gyffredinol, aseswyd bod y safle yn debygol o fod yn cynnal ystod eang o rywogaethau o anifeiliaid di-asgwrn cefn cyffredin a holbresennol, er ei fod yn annhebygol o fod yn cynnal unrhyw rywogaethau prin neu rywogaethau a warchodir.

## 4.0 GWERTHUSIAD ECOLEGOL

4.1 Ar hyd o bryd nid oes system a dderbynnir yn genedlaethol ar gyfer categoreiddio safleoedd neu nodweddion o arwyddocâd bioamrywiaeth sy'n is na lefel gwerth cenedlaethol, y lluniwyd y meini prawf ar ei chyfer gan y Cyngor Gwarchod Natur gynt (1989, fel y'i digwyddwyd). Fodd bynnag, mae canllawiau ar gyfer nodi safleoedd anstatudol o arwyddocâd sirol (h.y.SoBCN) ar gael ar gyfer de Cymru (PBCy, 2008).

4.2 At ddibenion yr astudiaeth hon mae cynefinoedd a nodweddion y safle felly wedi'u gwerthuso a'u graddio dros dro yn unol â'r categorïau a nodwyd yn Atodiad 2, ac mae'r asesiad ecolegol o'r safle i'w weld ar Gynllun 3.

***Rhyngwladol, Cenedlaethol, Sirol ac Ardal, Uchel***

4.3 Nis ystyrir bod unrhyw rannau o'r safle yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau dan sylw.

***Gwerth Lleol***

4.4 Ystyrir bod y cynefinoedd ar y safle, sy'n cynnwys prysgwydd, llystyfiant cynefinol a glaswelltir amwynderol o rywfaint o werth i anifeiliaid megis ystlumod, adar, ymlusgiaid ac anifeiliaid di-asgwrn cefn sy'n chwilio am fwyd, ond yn annhebygol o fod o unrhyw arwyddocâd yn y cyd-destun hwn. Felly ystyrir bod y cynefinoedd o ddim mwy na Gwerth Lleol ar gyfer bywyd gwyllt.

***Gwerth Dibwys***

4.5 Ystyrir bod yr ardaloedd llawr caled o fewn y safle o Werth Dibwys i fywyd gwyllt.

## 5.0 ASESIAD O EFFAITH DATBLYGU

5.1 Bydd gwaith cychwynnol yn y safle yn cynnwys gwaith archwilio safle gyda'r potensial i ddatblygu'r safle ymhellach. Nid oes manylion penodol am unrhyw gynigion datblygu ar gyfer y dyfodol ar gael ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

5.2 Deallir y caiff darn o dir yng ngogledd y safle ei gadw (gweler Cynllun 4) ac nid yw hwn wedi'i gynnwys yn unrhyw ddatblygiad ar y safle yn y dyfodol.

5.3 Nis ystyrir bod cynefinoedd y safle datblygu yn cynnig dim mwy na Gwerth Lleol i fywyd gwyllt, a chan hynny mae datblygu'r rhain o arwyddocâd eithaf dinod ac nid yw unrhyw effaith yn debygol o ymestyn y tu hwnt i'r ardal gyfagos. Dylai unrhyw effaith gan hynny fod yn agored i fesurau lliniaru.

5.4 Bydd mesurau lliniaru ar gyfer rhywogaethau ymlusgiaid cyffredin ac adar sy'n nythu yn ofynnol fel rhan o'r datblygiad hwn. Er nad yw manylion y datblygiad yn hysbys ar hyn o bryd, dylai mesurau lliniaru fod yn ddigon hawdd i'w cyflawni fel rhan o'r gwaith datblygu.

5.5 Er gwaethaf yr uchod, ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y casgliad yw bod modd ail-ddatblygu'r safle heb achosi unrhyw effaith andwyol arwyddocaol i fywyd gwyllt, cyn belled y caiff mesurau lliniaru a digolledu digonol eu rhoi ar waith i ddiogelu'r nodweddion gwerthfawr presennol ac er mwyn osgoi neu leihau'r effaith ar rywogaethau a warchodir. Ystyrir felly na fyddai'r cynnig i ddatblygu'r safle hwn yn cael ei gyfyngu'n annerbyniol gan faterion bioamrywiaeth.

# 6.0 ARGYMHELLION

6.1 Os bydd y cynnig i ailddatblygu'r safle hwn yn mynd rhagddo, gwneir yr argymhellion canlynol er mwyn lleihau effaith andwyol ar nodweddion bywyd gwyllt a rhywogaethau a warchodir.

6.2 ***Gofynion Statudol -***

***Ymlusgiaid***

6.2.1 Bydd mesurau lliniaru ar gyfer ymlusgiaid cyffredin yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau'r potensial i achosi marwolaeth ac anaf i unigolion yn ystod unrhyw weithrediadau clirio safle ac adeiladu, sy'n ofyniad statudol.

6.2.2 Nodir y cyfyngir gweithrediadau clirio ar gyfer ymlusgiaid ar sail dymhorol, ac ni ellir ei gyflawni yn ystod y cyfnod gaeafu sy'n ymestyn o tua mis Tachwedd i fis Chwefror gan gynnwys y mis hwnnw. Mae gwaith a wneir y tu allan i'r cyfnod hwn yn lleihau'r tebygolrwydd y deuir ar draws unigolion cysglyd a/neu disymud sy'n agored i niwed a'u niweidio o bosib.

6.2.3 Gan mai dim ond yn rhan o'r safle y bwriedir clirio llystyfiant, mae'n bosib y gellid rhoi mesurau lliniaru addas ar waith yn yr achos hwn drwy ddefnyddio mesurau 'rhwystro rhywogaethau' i alluogi'r gwaith archwilio safle cychwynnol ac yn ystod y cyfnod sy'n arwain at ddechrau adeiladu - fel y manylir isod.

- Gam wrth gam tynnu'r llystyfiant yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt cyn dechrau ar y gwaith, ynghyd â chwalu a chael gwared ag unrhyw ardaloedd posibl sy'n cynnig lloches megis pentyrrau o goed a cherrig mawr ac ati.,
- Dylid sicrhau nad oes unrhyw lystyfiant ar yr ardaloedd gaiff eu clirio drwy ei strimio neu ddefnyddio triniaeth gemegol ar y llystyfiant.

6.2.4 Dylai unrhyw fannau llochesu, megis darnau o bren, cerrig mawr ac ati gael eu codi â llaw gan edrych a oes unrhyw ymlusgiaid oddi tanynt. Dylid galluogi unrhyw ymlusgiaid sy'n bresennol i wasgaru i'r cynefinoedd cyfagos a dylid tynnu'r lloches o'r safle ar unwaith.

6.2.5 Bydd angen llunio strategaeth lliniaru ar gyfer ymlusgiaid yn amlinellu manylion y mesurau i'w rhoi ar waith i rwystro rhywogaethau.

***Adar***

6.2.6 Dylai unrhyw waith sy'n effeithio ar y prysgwydd osgoi prif dymor nythu adar, sy'n rhedeg o tua mis Mawrth i fis Awst gan gynnwys y mis hwnnw. Fel arall, cyn gwneud unrhyw waith y maen rhaid ei wneud yn ystod y cyfnod hwn, dylid arolygu'r safle i sicrhau nad oes unrhyw adar yn bresennol. Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw gynefinoedd eraill sy'n gynefin i adar sy'n nythu, gan gynnwys rhywogaethau sy'n nythu ar y ddaear.

6.2.7 Bydd pob contractwr sy'n gwneud gwaith clirio prysgwydd yn cael ei rybuddio am bresenoldeb *posibl* adar sy'n nythu a'u statws gwarchodedig. Dylid ei gwneud yn ddealladwy os deuir ar draws unrhyw adar sy'n nythu yn ystod y gwaith, y bydd rhaid

rhoi’r gorau i’r holl waith yn yr ardal yr effeithir arni

oni cheir cyngor arbenigol priodol.

### 6.3 *Gofynion Anstatudol*

6.3.1 Dylai tirlun y safle datblygedig gynnwys cynefinoedd newydd sy'n cyd-fynd â'r rhai a geir yn yr ardal gyfagos. Yn benodol, dylid rhoi ystyriaeth i greu perthi newydd o rywogaeth gynhenid o amgylch cyrion y safle, sy'n helpu i greu coridorau gwyrdd drwy'r safle. Ceir rhywogaethau addas ar gyfer eu plannu mewn perthi newydd yn Atodiad 3.

6.3.2 Byddai cynefinoedd eraill a fyddai'n ddymunol yn cynnwys ardaloedd o laswelltir lled-naturiol neu niwtral, yr olaf a fyddai'n cynnwys rhywogaethau glaswelltir cynhyrchiant isel gan mwyaf megis Peiswellt Coch *(Festuca Rubra),* Rhonwellt y Ci *(Cynosurus cristatus)* a Maeswellt Cyffredin, ac yn cynnwys cymysgedd o tua 10-15% o rywogaethau glaswelltir blodau niwtral nodweddiadol.

6.3.3 Dylai'r holl blanhigion a stoc had a ddefnyddir i greu cynefin fod yn rhai lleol, neu o leiaf o'r DU, a dylent gynnwys ond rhywogaeth gynhenid yr ardal leol (gweler Atodiad 3 am awgrymiadau).

6.3.4 Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddefnyddio golau yn y safle datblygedig, oherwydd gall hyn effeithio ar weithgareddau amrywiaeth o anifeiliaid, yn enwedig ystlumod sy'n chwilio am fwyd. Dylid osgoi unrhyw olau sy'n gorlifo i gynefinoedd lled-naturiol megis perthi, coetiroedd ac afonydd. Dylid sicrhau y cedwir disgleirdeb ar y lefel isaf a ganiateir mewn ardaloedd wrth ymyl cynefin lled-naturiol.

6.3.5 Dylid ystyried gosod bocsys adar mewn lleoliadau addas yn y safle. Dylid gosod y rhain yn y fath fodd fel nad oes modd i ysglyfaethwyr megis cathod eu cyrraedd, a'u gosod o leiaf 4m (5m o ddewis) uwchben lefel y ddaear. Yn ddelfrydol dylai'r rhain fod yn focsys 'woodcrete' (megis y rheiny a wneir gan Schwegler Ltd), gan fod y rhain yn llawer mwy gwydn ac yn para'n hirach na bocsys pren traddodiadol ac yn haws i ofalu amdanynt (gweler Atodiad 4).

6.3.6 Os bydd angen ffensys mewn unrhyw leoliad o fewn ffiniau'r safle, dylid sicrhau bod mynediad oddi tanynt i anifeiliaid bach. Bydd y ffensys a gaiff eu defnyddio un ai o ddyluniad postyn a rheilen neu rai gyda bwlch o ddim llai na 5 modfedd rhwng pen isaf y ffensa a'r ddaear.

6.3.7 Caiff potiau gylis, a osodir ar hyd ffyrdd mynediad, eu gosod o leiaf 5cm oddi wrth gwrbyn y ffordd. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw rywogaeth amffibiad neu ymlusgiad sy'n symud drwy'r safle yn cwympo i mewn i'r potiau ac yn cael eu dal.

***Rhywogaethau ymledol***

6.3.8 Mae Llysiau'r Dial yn rhywogaeth oresgynnol a chaiff ei restru dan Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n benodol yn gwahardd lledaenu'r planhigion hyn yn ddiofal neu fwriadol, ac felly mae mesurau priodol yn ofynnol i leihau'r risg o'u lledaenu yn ystod unrhyw waith, a chael gwared â nhw pan fo'n bosibl. Dylid rhoi strategaeth rheoli Llysiau'r Dial ar waith yn y safle.

## 7.0 CYFEIRIADAU

**Biodiversity Reporting & Information Group (BRIG 2007)** *Report on the Habitats & Species Review: A Report to the UK Biodiversity Partnership*. Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Peterborough.

**Chartered Institute of Ecology and Environmental Management (2013) Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal. CIEEM, Winchester.**

Gweler cyhoeddiad y **Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (2007)** *Handbook for Phase 1 Habitat Survey: a Technique for Environmental Audit*. NCC Peterborough.

Cyngor Gwarchod Natur (1989) *Guidelines for the Selection of Biological SSSIs*. NCC Peterborough.

**Rodwell, J (Ed) (1991- 2000)** *British Plant Communities*. Cyfrolau 1-5. Cambridge University Press..

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2008)** *Canllaw Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru: Canllaw ar gyfer Datblygu Systemau Bywyd Gwyllt Lleol yng Nghymru.* Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru **(2016)** *Adran 7:* Rhestrau o Organau Byw a Chynefinoedd sydd o Bwysigrwydd Mawr at y Diben o Gynnal a Gwella Bioamrywiaeth yng Nghymru. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru/Llywodraeth Cymru.

## ATODIAD 1: RHYWOGAETHAU A GOFNODWYD

Cofnodwyd yr holl rywogaethau gan DCE 2017, oni bai y nodir yn wahanol:

| **Rhywogaeth** | **Enw Cyffredin** | **Rhywogaeth Ddangosol** | | | | | **Sylwadau eraill** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Coed a Phrysgwydd** | | **W** | **NG** | **CG** | **MG** | **PIL** | |
| *Acer pseudoplatanus* | Sycamorwydden | | | | | | IA |
| *Buddleja davidii* | Y Gynffon Las | | | | | | IA |
| *Clematis vitalba* | barf yr hen ŵr | | | | | | |
| *Crataegus monogyna* | draenen wen | | | | | | |
| *Pinus* sp | rhywogaeth pîn | | | | | | |
| *Rosa canina* | rhosyn gwyllt | | | | | | |
| *Rubus fruticosus* ag | mieri | | | | | | |
| Salix spp. | helygen spp. | | | | | | |
| *Sambucus nigra* | ysgawen | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Planhigion Llysieuol** | | | | | | | |
| *Achillea millefolium* | milddail | | | | | | |
| *Agrostis capillaris* | maeswellt cyffredin | | | | | | |
| *Anagallis arvensis* | llysiau'r cryman | | | | | | |
| *Aquilegia sp.* | troed y golomen | | | | | | |
| *Arctium sp.* | cedor y wrach | | | | | PIL | |
| *Arrhenatherum elatius* | ceirchwellt tal | | | | | | |
| *Artemisia vulgaris* | beidiog lwyd | | | | | | |
| *Bellis perennis* | llygaid y dydd | | | | | | |
| *Blackstonia perfoliata* | y ganrhi felen | | | CG | | | |
| *Brassica sp* | rhywogaeth mwstard | | | | | | |
| *Calystegia sepium* | taglys y perthi | | | | | | |
| *Carex otrubae* | hesgen dywysennog | | | | | PIL | |
| *Carex pendula* | hesg pendrwm | W | | | MG | | |
| *Centaurea nigra* | y bengaled | | NG | CG | | | Hap-dreial |
| *Centranthus ruber* | triaglog | | | | | | |
| *Chamerion angustifolium* | helyglys hardd | | | | | | |
| *Cirsium arvense* | ysgallen y maes, | | | | | | |
| *Cirsium vulgare* | marchysgallen | | | | | | |
| *Clematis vitalba* | barf yr hen ŵr | | | | | | |
| *Dactylis glomerata* | troed y ceiliog | | | | | | |
| *Daucus carota* | moronen y maes | | | CG | | | |
| *Dipsacus fullonum* | cribau'r pannwr | | | | | PIL | |
| *rhawn march* | rhywogaeth rhawn y march | | | | | | |
| *Fallopia japonica* | Llysiau'r Dial | | | | | | IA |
| *Foeniculum vulgare* | Ffenigl | | | | | | |
| *Galium aparine* | llau'r offeiriad | | | | | | |
| *Geranium dissectum* | pig yr aran larpiog | | | | | | |
| *Geranium rotundifolium* | pig yr aran | | | | | | |
| *Heracleum sphondylium* | efwr | | | | | | |
| *Holcus lanatus* | maswellt Penwyn | | | | | | |
| *Humulus lupulus* | hopysen | | | | | | |
| *Hypericum perforatum* | Eurinllys trydyllog | | NG | CG | | | |
| *Lathyrus pratensis* | ytbysen y ddôl | | NG | | | | |
| *Leucanthemum vulgare* | llygad llo mawr | | NG | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Lotus corniculatus* | troed yr iâr | | NG | CG | | PIL | |
| *Lychnis flos-cuculi* | carpiog y gors | | | | MG | | |
| *Malva sylvestris* | Hocys | | | | | | |
| *Medicago lupulina* | maglys gwineuddu | | | CG | | | |
| *Rhywogaeth Myosotis* | rhywogaeth blodau gleision | | | | | | |
| *Picris echioides* | tafod-y-llew gwrychog | | | | | PIL | |
| *Plantago lanceolata* | llyriad yr ais | | | | | | |
| *Poa annua* | gweunwellt unflwydd | | | | | | |
| *Poa trivialis* | gweunwellt garw | | | | | | |
| *Potentilla reptans* | pumnalen | | | | | | |
| *Prunella vulgaris* | meddyges las | | | | | | |
| *Pulicaria dysenterica* | cedorwydd | | | | MG | | |
| *Ranunculus repens* | blodyn ymenyn ymlusgol | | | | | | |
| *Reseda alba* | melengu wen | | | | | | |
| *Rumex crispus* | tafol crych, | | | | | | |
| *Senecio jacobaea* | llysiau’r gingroen | | | | | | |
| *Silene latifolia* | gludlys gwyn | | | | | | |
| *Stachys sylvatica* | briwlys y goedwig | | | | | | |
| *Tanacetum vulgare* | tanclys | | | | | PIL | |
| *Trifolium campestre* | hopsen goeg | | | CG | | PIL | |
| *Trifolium pratense* | meillionen goch | | NG | | | | |
| *Trifolium repens* | meillionen wen | | | | | | |
| *Tussilago farfara* | carn yr ebol | | | | | PIL | |
| *Urtica dioica* | danadl poethion | | | | | | |
| *Vicia sativa* | ffacbys | | | | | | |
| *Vicia sepium* | Ffacbsyen y cloddia | | | | | | |
| **Cyfanswm Rhywogaethau Dangosol PBCy (2008)** | | 1 | 6 | 7 | 3 | 8 | |

**Allwedd**
**Rhywogaethau Dangosol (SWWSP 2004)**
W - Coetir, NG - Glaswelltir Niwtral, CG - Glaswelltir Calchaidd, AG - Glaswelltir Sur, PMG - Porfeydd Brwyn a Glaswellt y Gweunydd, PIL - Tir Ôl-ddiwylliannol, TF - Tir Âr ac Ymylon Cyfoethog eu Rhywogaethau
**Dynodi yn SoBCN**
Dylid ystyried dynodi safleoedd sy’n cynnal 1 rhywogaeth sylfaenol neu 5 rhywogaeth neu gynefinoedd cyfrannol sy’n cynnal 8 glaswelltir niwtral, 8 glaswelltir calchaidd, 7 glaswelltir sur, 12 porfa frwyn a glaswellt y gweunydd neu 8 tir âr ac ymylon cyfoethog eu rhywogaethau yn safleoedd SoBCN. Dylid hefyd ystyried dynodi safleoedd ôl-ddiwylliannol sy’n cynnal 20 neu fwy o rywogaethau dangosol o’r rhestrau tiroedd ôl-ddiwydiannol cyfunol, sur, niwtral, calchaidd a glaswelltir corsiog.

# ATODIAD 2: DIFFINIADAU O WERTH SAFLE

**Gwerth Rhyngwladol**

Safle sydd â dynodiad a gydnabyddir yn rhyngwladol megis Safle Ramsar, Safle Treftadaeth y Byd, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig Gwarchodfa Biosffer neu Gwarchodfa Biogeneteg, neu: Cynefinoedd: safle sy'n cynnal cynefinoedd o arwyddocâd cenedlaethol sydd wedi'u diffinio'n safleoedd o ddiddordeb cymunedol rhyngwladol.

Rhywogaethau: safle sy'n cynnal poblogaethau o rywogaethau o arwyddocâd cenedlaethol o ddiddordeb cymunedol rhyngwladol

**Gwerth Cenedlaethol**

Mae'r safle yn bodloni meini prawf Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (NCC 1989) cyhoeddedig p'un ai a yw wedi'i ddynodi neu beidio.

**Cynefinoedd:** safle sy'n cynnal cynefinoedd o arwyddocâd cenedlaethol ar sail diddordeb neu brinder cenedlaethol.
**Rhywogaethau:** safle sy'n cynnal poblogaethau neu gymunedau o rywogaethau nodedig neu rywogaethau a ddiogelir o arwyddocâd cenedlaethol (ac eithrio'r mochyn daear) fel y nodwyd yn Llyfr Data Coch y DU.

**Gwerth Sirol**

Safle a nodwyd yn Safle Bywyd Gwyllt Sirol (SBS), Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) neu debyg ar lefel sirol (h.y. yn fwy nag ar lefel bwrdeistrefol neu ddinesig); safle sy'n bodloni meini prawf SBS (pan fo'r rheiny'n berthnasol), ond nad yw'n bodloni meini prawf dynodiad SoDdGA, p'un ai a yw wedi'i ddynodi'n SBS neu beidio.

**Cynefinoedd:** Safleoedd sy'n cynnwys enghreifftiau da o gynefinoedd sydd dan fygythiad yn genedlaethol, neu gynefinoedd helaeth sy'n brin neu unigryw yn y sir.
**Rhywogaeth:** safle sy'n cynnal poblogaethau neu gymunedau cryf o rywogaethau prin neu rywogaethau a ddiogelir (ac eithrio'r mochyn daear), neu rywogaethau sy'n brin yn y sir ac yn anghyffredin yn genedlaethol.

**Gwerth Ardal**

Safleoedd nad ydynt yn bodloni meini prawf Gwerth Sirol, ond er hynny sy'n cynnal cynefinoedd, rhywogaethau neu gymunedau sy'n cyfoethogi adnoddau ecolegol y sir yn sylweddol, yn enwedig yn rhinwedd eu maint neu ledaeniad.

**Cynefinoedd:** safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd sy'n anghyffredin yn y sir, darnau bach o gynefinoedd sydd dan fygythiad cenedlaethol sydd heb eu haddasu, neu yn cynnwys ardaloedd neu systemau o gynefinoedd lled-naturiol.
**Rhywogaethau:** safleoedd sy'n cynnal rhywogaethau sy'n brin yn genedlaethol neu boblogaethau neu gymunedau cryf o rywogaethau sy'n anghyffredin ar lefel rhanbarthol, na fyddant fel arall yn bresennol (h.y. maent yn dibynnu'n gyfangwbl ar nodweddion y safle).

**Gwerth Lleol**

Cynefinoedd nad ydynt yn bodloni meini prawf Gwerth i'r Ardal, ond sy'n cyfoethogi adnoddau ecolegol y fro yn sylweddol. Gellir rhannu'r categori hwn ymhellach:

- **Gwerth Lleol Uchel:** dim ond o'r bron yn methu â bodloni Meini Prawf Gwerth Ardal; yn cynnal rhywogaethau sy'n nodedig neu anghyffredin yn y sir; neu rywogaethau sy'n anghyffredin, lleol neu'n gyfyngedig i gynefinoedd penodol yn genedlaethol, ac na fyddant fel arall yn bresennol yn yr ardal.

- **Gwerth Lleol:** safleoedd sydd o werth ecolegol dim ond yng nghyd-destun eu hamgylchoedd uniongyrchol. Mae'n bosib bod rhywogaethau prin neu anghyffredin yn bresennol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r safle nad yn dibynnu'n gyfan gwbl arno i allu byw yn yr ardal.

Gellir ystyried safleoedd nad ydynt yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf yn safleoedd sydd o werth ecolegol **'Dibwys'**.

## ATODIAD 3: RHYWOGAETHAU CYNHENID SY'N ADDAS I'W PLANNU

Coed a Llwyni
Betula pendula Bedwen
arian Betula pubescens Bedwen
gyffredin Corylus avellana Collen
Crataegus monogyna Draenen wen
Cytisus scoparius Banadl
Fraxinus excelsior Onnen
Ilex aquifolium Celyn
Prunus avium Ceiriosen felys
Prunus spinosa Draenen ddu
Quercus robur Derwen mes coesynnog
Salix caprea Coed helyg
Salix cinerea Helygen lwyd
Sorbus aucuparia Coed criafol
Ulex europaeus Eithin
Viburnum opulus
Gwifwrnwydden y Gors

Rhywogaethau Glaswelltir
Centaurea nigra Y bengaled
Hypochaeris radicata Melynydd
Lathyrus pratensis Ytbysen y Ddôl
Leontodon hispidus Peradyl Garw
Leucanthemum vulgaris Llygad Llo
Mawr
Lotus corniculatus Pys ceirw
Medicago lupulina Maglys Gwineuddu
Pilosella officinalis Heboglys torllwyd
Plantago lanceoloata Llyriad yr ais
Primula veris Briallen
Primula vulgaris Primrose
Prunella vulgaris Meddyges
Las
Ranunculus acris Crafanc brân y
gweunydd
Trifolium dubium Least trefoil
Trifolium pratense Meillionen Goch
Veronica chamaedrys Llygad Doli
Vicia cracca Ffacbysen y Berth
Vicia sativa Ffacbys

## ATODIAD 4: ENGHREIFFTIAU O FOCSYS ADAR



Bocs adar Schwegler 1B



Bocs robin Schwegler 2H

**FFOTOGRAFFAU O'R SAFLE, Mehefin 2017**



Ffin ogleddol y safle



Ffin ddwyreiniol y safle



Ffin de-ddwyreiniol y safle



Y ffin ddeheuol tua'r dwyrain



Y ffin ddeheuol tua'r gorllewin



Edrych ar draws y safle o'r dwyrain i'r gorllewin



Edrych ar draws y safle o'r de i'r gogledd



Llysiau'r Dial gweler TN ar Gynllun 2



Olion tipio anghyfreithlon yn y safle

**Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri**

**Asesiad Ecolegol**

DCE 949 NTS Gorffenn




Centre of Search Area
1km Search Buffer
Site of Special Scientific Interest
Site of Importance for Nature Conservation
Regionally Important Geological Site
Unitary Authority Boundary

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of HMSO © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Ordnance Survey Licence number 100043138 (2017).

NRW designations data: © Crown copyright. All rights reserved. Natural Resources Wales. 100018813 (2017).

Plot produced on 19/06/2017 on behalf of David Clements Ecology Ltd by


SEWBReC
SOUTH EAST WALES BIODIVERSITY RECORDS CENTRE
CANOLFAN GOFNODION BIOAMRYWIAETH DE DDWYRAIN CYMRU

**Ystâd Fasnachu'r Iwerydd**

**Asesiad Ecolegol**

**Cynllun 2: Cynefinoedd a**

DCE 949 NTS Gorffenn




**Allwedd**

Glaswelltir

amwynderol

Prysgwydd mieri

Llystyfiant tal

Llawr Caled Ffin

Safle Ffens Metel


Targed Cerrig

Mawr

**Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri**

**Asesiad Ecolegol**

DCE 949 NTS Gorffenn




**Allwedd**

Gwerth Lleol

Gwerth Dibwys

**Ystâd Fasnachu’r Iwerydd, Y Barri**

**Asesiad Ecolegol**

**Cynllun 4: Ardaloedd i’w**

DCE 949 NTS Gorffenn

